

# Pigion

## Ysgol Pen y Garth



# Ebrill 2019

### Newyddion y Staff

Croeso nôl i Mrs Nia Smith ar ôl cyfnod mamolaeth.

Pob dymuniad da i Miss Buckland a fydd yn dechrau cyfnod mamolaeth ar ôl y Pasg. Mi fydd Mrs Smith yn cymryd cyfrifoldeb y dosbarth ar ol y gwyliau .

Dymumwn bob lwc i Mrs Louise Davies a fydd yn dechrau secondiad 5 tymor gyda'r Consortiwm fel ymghynhorydd Mathemateg i ysgolion y pump awdurdod. Bydd Mr Hughes yn cymryd cyfrifoldeb y dosbarth ar ôl Y Pasg.

### Digwyddiadau cyffrous

Mae'r ysgol wedi bob yn brysur iawn ers yr hanner tymor a'r plant wedi cael ystod o brofiadau diddorol:-

Eisteddfod Ysgol gyda Indeg Rhys Binney yn ennill y gadair.

Cyflwyniad gwyddonol gan Gwyddonwyr Gwallgo.

Diwrnod agored bendigedig i wahodd darpar rieni i weld ein hysgol.

Cyfle i recordio Cân Mistar Urdd gyda Mei Gwynedd.

Diwrnod cyfan o ymgolli mewn llyfrau a darllen yn ystod Diwrnod y Llyfr.

Dosbarth Derbyn yn mynd i weithdai Teganau yn Sain Ffagan.

Ymweliad y Parch Alun Tudur i'r Derbyn yn sôn am ei swydd.

Cael hwyl wrth godi Arian i Comic relief .

Bu'r parti canu yn diddanu ffrindiau Ageing Well yn Neuadd Glyndwr.

Mae disgyblion Cogan wedi bod yn ymweld yn wythnosol i gael cymorth darllen.

Cafodd Blwyddyn 1 wledd ganoloesoedd a dawns i rieni.

Cynhaliodd Blwyddyn 2 sioe ffasiynau i'r rhieni weld dyluniadau y creadigol y disgyblion.



**Pencampwyr presenoldeb tymor yma yw Dobarth 4E gyda 96.7%. Gwych!**



# Pigion

## Ysgol Pen y Garth



# Ebrill 2019

### CRhA

Roedd y noson sinema yn lwyddiant ysgubol gan godi £700.

Cododd Rags to Riches £150.

Roedd y noson twmpath yn hwyl pan godwyd £220.

Diolch i chi gyd am eich gefnogaeth i godi arian i'r ysgol mewn amser o anhawsterau ariannol. Rydyn yn gwerthfawrogi'n fawr eich ymdrechion.

Rydym mor ddiolchgar i bwyllgor y gymdeithas rieni sy'n gwirfoddoli a gweithio'n galed ar gyfer anghenion yr Ysgol.

### Llwyddiannau

Bu nifer fawr o blant yn cystadlu yn yr Urdd ar lefel gylch a Sir.

Daeth dros 40 o gogyddion i gystadlu yng nghystadlu Cogurdd eleni. Jac Scott-Jones oedd yr enillydd a fydd yn cynrychioli'r ysgol ym mis Mai.

Bydd yr ysgol yn cystadlu mewn 7 cystadleuaeth yn yr eisteddfod genedlaethol ym mis Mai.

Unawd blwyddyn 2 ac lau – Moi Williams; Unawd pres – Daniel Powell; Unawd chwythbrennau Eleri Segust, Unawd taro – Josh Lewis; Grwp dawns greadigol. Grwp dawnsio disgo.

Cystadlu Band.

Mae llawer o'n disgyblion hefyd yn cystadlu gyda aelwyd Coed y Cwm yn y côr a pharti canu.

Rygbi'r Urdd – bu dau dim yn cystadlu a chwarae'n arbennig o dda.

### Dyddiadau i'w cofio...

Diwrnodau HMS tymor yr haf 3/6/19 a 22/7/19.

Rydyn wedi penderfynu ymestyn diwrnod cau celf a chrefft i 29/4/19 (diwrnod olaf i gofrestru).

Eisteddfod Celf a Chrefft 30/4/19.

Noson wobrwyo Celf a Chrefft 2/5/19 Canolfab yr Urdd

Mabolgampau Babanod 23/5/19. Dyddiad wrth gefn 20/6/19.

Mabolgampau lau 24/5/19. Dyddiad wrth gefn 21/6/19.



**Ar ran y staff i gyd hoffwn ddymuno Pasg hapus i chi gyd. Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus.**

